



Adnoddau CA2

# Plannu Hedyn Caredigrwydd

Wedi'u creu gan Eilidah Brailey



plannwch  
hedyn

Ystorfa Ddysgu Go Tell the Bees

National Theatre Wales



COUNTERPOINTS.

# Plannu Hedyn Caredigrwydd

Mae'r adnodd hwn yn dechrau trwy ofyn i ddysgwyr fyfyrion ar sut maen nhw'n trin eraill a'r pethau maen nhw'n eu dweud wrth rywun newydd. Mae fideo wedi'i chysylltu â'r PowerPoint sy'n cyflwyno ffoadur ifanc mewn ffordd addas i CA2, ac yn dangos sut y gall caredigrwydd wneud gwahaniaeth mawr iddynt ymgartrefu. Anogir dysgwyr i ddatblygu empathi a myfyrion ar sut mae'r cymeriadau'n teimlo yn ogystal â meddwl am y pethau y byddent am i rywun eu dweud wrthynt pe byddent yn y sefyllfa honno.

**Yna caiff y dysgwyr y dasg o rannu'n grwpiau a chanmol pawb arall yn y grŵp. Eto dylid myfyrion ar hyn.**

Y dasg olaf yw i ddysgwyr wneud 'coeden garedigrwydd' yn yr ystafell ddosbarth i ysgrifennu pethau caredig ar y dail bob dydd, gan annog positifrwydd. Gellir gwneud y goeden o unrhyw ddeunydd sy'n briodol i'r adnoddau sydd ar gael i'r ysgol.

**Fideo wedi'i chysylltu â PowerPoint gan Amnest Rhyngwladol, fel y darparwyd gan Counterpoint Arts.**

## Gweithred Syml

- Plannu Hedyn

## Maes Dysgu a Phrofiad

- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Llesiant

## Adnoddau sydd eu hangen

- PowerPoint
- Gliniadur / Taflunydd / Sgrin
- Deunyddiau y daethpwyd o hyd iddynt a all ffurfio dail coeden.
- Cortyn
- Papur
- Siswrn
- Pinnau

# Plannu Hedyn Caredigrwydd

**Mae'r sesiwn hon yn canolbwyntio ar ddysgwyr yn datblygu eu synnwyr o empathi ac ymarfer caredigrwydd.**

- Mae'r sesiwn yn dechrau gyda dysgwyr yn myfyrio ar sut y byddent yn ymateb i berson newydd.
- Mae fideo a gynhyrchwyd gan Amnest Rhyngwladol wedi'i chysylltu â'r PowerPoint. Mae'n dangos ffoadur ifanc yn dod i'r wlad a'r teimladau o fod mewn lle newydd. Yn bwysicaf oll mae'n dangos sut y gall caredigrwydd helpu mewn sefyllfaoedd fel hyn.
- Yna anogir dysgwyr i ganmol ei gilydd a myfyrio ar sut roedd hyn yn gwneud iddynt deimlo ac a oeddent yn ei chael hi'n hawdd dweud rhywbeth caredig.
- Y neges a fwriadwyd yw nad yw dysgwyr yn gwybod beth sy'n digwydd ym mywyd rhywun, felly dylent fod yn garedig. Yna bydd y caredigrwydd hwn yn cael ei drosglwyddo i eraill a bydd yn tyfu fel bod hedyn wedi'i blannu.
- Y dasg olaf yw cynhyrchu coeden garedigrwydd yn yr ystafell ddosbarth. Dylai'r goeden hon gael ei gwneud o unrhyw adnoddau sydd ar gael yn y ffordd sydd fwyaf addas i'ch ysgol a'ch ystafell ddosbarth. Y bwriad yw y gall dysgwyr ychwanegu neges o garedigrwydd at ddeilen y gellir ei chlymu i'r goeden i eraill ei darllen - gan wneud trosiad gweledol ar gyfer hedyn caredigrwydd.

**Os yw'r fideo yn methu â chwarae o'r PowerPoint, gellir ei chyrru ar y linc ganlynol:**

<https://vimeo.com/418420320>

**Cafodd y fideo ei chreu gan Kazzum Arts ar y cyd â CounterPoint Arts ac Amnest Rhyngwladol.**

**Mae mwy o fanylion am y sefydliadau hyn ar y gwefannau a ganlyn:**

<https://www.kazzum.org/>

<https://counterpointsarts.org.uk/>

<https://www.amnesty.org.uk/>